



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Fframwaith penderfyniadau rheoli heintiau COVID-19 lleol ar gyfer ysgolion o hydref 2021

Mae'r fframwaith hwn yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer cyflwyno darpariaeth ddysgu mewn ysgolion.

Cyhoeddwyd gyntaf: 27 Awst 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 27 Awst 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Trosolwg

Cyflwyniad

Egwyddorion craidd

Lefel rhybudd sero

Pennu lefel y risg

Ymyriadau craidd i'w rhoi ar waith

Ymyriadau wedi'u teilwra i'w rhoi ar waith ar sail risg leol

Beth fydd yn digwydd os bydd achos o COVID-19 yn eich ysgol?

Beth fydd yn digwydd os bydd brigiad posibl o achosion?

Olrhain cysylltiadau mewn grwpiau oedran gwahanol

Canllawiau pellach

Atodiad A

Trosolwg

Mae'r Fframwaith hwn yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer cyflwyno darpariaeth ddysgu mewn ysgolion, gan eu galluogi i deilwra ymyriadau i adlewyrchu risgiau ac amgylchiadau lleol. Daw i rym o 1 Medi 2021, a dylai'r dull gweithredu a

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

amlinellir yn y ddogfen hon gael ei fabwysiadu cyn gynted â phosibl ar ôl dychwelyd i'r ysgol, ac erbyn 20 Medi 2021 fan hwyraf, pan ddaw'r canllawiau gweithredol cyfredol ar gyfer ysgolion i ben.

Bydd profion Dyfais Llif Unffordd yn parhau i gael eu cynnig ddwywaith yr wythnos ar ddechrau'r flwyddyn academaidd i staff mewn ysgolion cynradd a staff a dysgwyr mewn ysgolion uwchradd. Caiff y defnydd a wneir o brofion dyfais llif unffordd ei adolygu'n gyson wrth i ysgolion ddechrau defnyddio'r Fframwaith. Mae Tabl 2 yn dangos sut y gallai'r defnydd o brofion dyfais llif unffordd newid yn dibynnu ar lefel y risg a nodir. Caiff ysgolion ragor o ganllawiau maes o law i egluro sut y caiff newidiadau o'r fath eu cyflwyno.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r camau y dylai arweinwyr ysgolion eu cymryd i leihau'r risg y caiff COVID-19 ei drosglwyddo yn eu hysgolion. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar iechyd y cyhoedd.

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer arweinwyr a staff:

- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd (gan gynnwys dosbarthiadau chweched)
- ysgolion arbennig, darparwyr ôl-16 arbennig
- ysgolion babanod, iau, canol
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion preswyl
- ysgolion annibynnol

Lle y cyfeirir at ysgolion yn y canllawiau hyn, mae hynny yn cynnwys yr ysgolion a lleoliadau a restrir uchod ond nid yw'n cynnwys ysgolion meithrin na dosbarthiadau cyn-derbyn a gynhelir.

Dylai ysgolion weithio'n agos gyda rhieni, gofalwyr, staff ac undebau i gytuno ar y dulliau gweithredu gorau ar gyfer eu hamgylchiadau.

Rydym yn defnyddio'r termau 'rhaid' a 'dylai' drwy gydol y canllawiau. Rydym yn defnyddio'r term 'rhaid' pan fydd gofyniad cyfreithiol i'r unigolyn dan sylw wneud rhywbeth, a 'dylai' pan fydd y cyngor a roddir yn arfer da.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-llleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cyflwyniad

Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd y Prif Weinidog y fersiwn ddiweddaraf o **Gynllun Rheoli'r Coronafeirws ar gyfer Cymru**, sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer newid i “lefel rhybudd sero” – cam newydd sydd â'r nod o sicrhau ymateb cymesur i COVID-19, gan adlewyrchu effaith y cynllun brechu a chydbwysu'r risgiau a'r niwed.

Mae'r Cynllun Rheoli yn nodi bod disgwyl i ysgolion weithredu mewn ffordd sydd mor agos i'r hyn sy'n arferol â phosibl ar lefel rhybudd sero. Bydd mesurau gwaelodlin, gan gynnwys asesiadau risg, trefniadau hylendid ac awyru gwell, a threfniadau i atal presenoldeb gan unigolion â symptomau COVID-19, yn parhau i fod ar waith, ond caiff mesurau eraill eu llacio fel rhan o system gymesur o fesurau rheoli. Yn achos ysgolion, bydd hyn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd iddynt wneud penderfyniadau a llunio ymyriadau wedi'u teilwra'n lleol, gyda chymorth awdurdodau lleol, Tîmau Rheoli Achosion Lluosog a swyddogion iechyd y cyhoedd.

Symudodd Cymru i lefel rhybudd sero ar 7 Awst 2021. Ond mae COVID-19 yma o hyd ac mae'n parhau i beri risg i'n hiechyd. Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r canlynol:

- **Lefel rhybudd 0: canllawiau i gyflogwyr, busnesau a sefydliadau** sy'n rhoi cyngor sylfaenol ar sut y caiff COVID-19 ei ledaenu a pha fesurau rhesymol y dylai cyflogwyr eu cymryd i leihau'r risg yn eu lleoliad
- y cerdyn gweithredu ymyriadau COVID-19 lleol ar gyfer ysgolion

Egwyddorion craidd

Gan gydnabod y cydbwysedd rhwng budd a niwed i ddysgwyr a staff, ein hegwyddorion craidd yw:

- galluogi ysgolion i weithredu ar sail 'busnes fel arfer' cyn belled ag y bo'n bosibl, gan gynnwys darparu brecwast am ddim a chlybiau ar ôl ysgol,

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

gweithgareddau allgyrsiol a phynciau ymarferol

- sicrhau'r deilliannau gorau i bob dysgwr drwy ystyried ei anghenion addysgol a'i les
- rheoli risgiau parhaus COVID-19 mor ddiogel â phosibl fel sy'n cael ei wneud ar gyfer heintiau eraill, a sicrhau bod y camau gweithredu i'w cymryd pe bai achos yn cael ei nodi mewn ysgol yn glir

Lefel rhybudd sero

- Yr egwyddor sylfaenol o hyd yw mai'r ffordd fwyaf effeithiol o atal COVID-19 rhag cael ei drosglwyddo yn ein hysgolion yw drwy atal yr haint rhag cyrraedd yr ysgol.
- Y ffordd orau o reoli risgiau personol yw drwy dderbyn y cynnig brechu, ac rydym yn annog y rhai sy'n gymwys i gael eu brechu i dderbyn y cynnig hwn.
- Os bydd rhywun yn cael prawf positif ar gyfer COVID-19, rhaid iddo hunanyngysu a pheidio â mynd i'r ysgol.

Ar lefel rhybudd sero, nid oes rhaid i gysylltiadau achos a gadarnhawyd o COVID-19 sydd o dan 18 oed neu'r rhai sydd wedi'u brechu'n llawn hunanyngysu oni bai eu bod nhw eu hunain yn dechrau dangos symptomau COVID-19. Ceir rhestr o'r eithriadau **yma**. Bydd swyddogion olrhain cysylltiadau Profi, Olrhain, Diogelu (POD) yn cysylltu â'r procsi (achos positif) a'r cysylltiadau agos a nodwyd ac yn cynnig profion PCR iddynt ar ddiwrnod 2 (neu cyn gynted â phosibl ar ôl i gysylltiad gael ei nodi) a diwrnod 8. Bydd POD hefyd yn rhoi cyngor iddynt ar y camau gweithredu mwyaf priodol i'w cymryd ar gyfer eu hamgylchiadau ac, i rai, bydd hyn yn cynnwys hunanyngysu. Mae'n annhebygol y caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr mewn dosbarth/grŵp blwyddyn eu nodi'n gysylltiadau agos. Fodd bynnag, efallai y caiff ysgolion eu cynghori i rybuddio a hysbysu er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni a staff am y sefyllfa a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud, ar sail cyngor gan POD.

Ar lefel rhybudd sero, bydd gan gyflogwyr fwy o hyblygrwydd i bennu'r hyn y mae angen ei wneud i reoli risgiau ar lefel leol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-ileol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Yng Nghymru, mae dyletswydd benodol ar yr unigolyn neu'r unigolion sy'n gyfrifol am unrhyw safle, neu'r gwaith a wneir ar y safle, i gymryd pob **cam rhesymol** ar sail asesiad risg i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â COVID-19 a'i ledaenu. Fel rhan o hyn, bydd angen i ysgolion sicrhau bod asesiadau risg COVID-19 rheolaidd yn cael eu cynnal o hyd. Dylai'r asesiad fynd i'r afael yn uniongyrchol â risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19, fel y gellir rhoi mesurau ar waith i reoli'r risgiau hynny.

Mae'r asesiad risg yn seiliedig ar yr Hierarchaeth Mesurau Rheoli Risg a amlinellir yn y cyngor hwn ac yn y **canllawiau i gyflogwyr, busnesau a sefydliadau**. Mae dyletswydd ar bob cyflogwr i ymgynghori â chyflogeion ar iechyd a diogelwch, a nhw sydd yn y sefyllfa orau i ddeall y risgiau mewn ysgolion unigol. Dylai cyflogwyr rannu canlyniadau asesiadau risg â'r gweithlu.

Ar y cyd â'u hawdurdod lleol, rhaid i ysgolion hefyd fodloni gofynion **Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999**.

Pennu lefel y risg

Rydym ar lefel rhybudd sero ar hyn o bryd. Mae hynny yn golygu bod y lefel risg gyffredinol yn isel. Ar lefel genedlaethol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i bennu lefel gyffredinol y risg yng Nghymru gan ddefnyddio y tabl isod, a chaiff y lefel ei chyfathrebu i bawb.

Tabl 1: graddau risg cenedlaethol

Lefel y risg	Disgrifiad	Camau gweithredu
Isel	<ul style="list-style-type: none">Mae mwy nag 85% o grwpiau blaenoriaeth 1-9 wedi cael dau ddos o frechlyn	<ul style="list-style-type: none">Bydd unigolion symptomatig yn parhau i hunanynysu a chael prawf, gan ymateb yn briodol i'r canlyniad. Caiff profion asymptomatig eu cynnal ymhlith carfannau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-ileol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y risg	Disgrifiad	Camau gweithredu
	<p>COVID-19 ac nid oes tystiolaeth bod imiwnedd yn gwanhau.</p> <ul style="list-style-type: none"> Efallai fod nifer yr achosion dros gyfnod o 7 diwrnod yn cynyddu, ond caiff mwyafrif yr achosion eu cofnodi ymhlith y rhai sy'n 30 oed neu'n iau nad ydynt wedi cael eu brechu neu sydd ond wedi cael un dos. Mae canran yr achosion yn y gymuned lle mae angen i'r claf gael ei dderbyn i'r ysbyty yn isel o hyd. Mae nifer y marwolaethau yn isel o hyd. Nid yw nifer yr unigolion sy'n hunanynysu yn peri risg i wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol na goleuadau glas rheng flaen. Mae camau gan awdurdodau lleol i orfodi busnesau i gydymffurfio yn isel o hyd. Ychydig iawn o'r haint 	<p>amrywiol yn unol â'r canllawiau.</p> <ul style="list-style-type: none"> Cysylltir ag achosion cyn gynted â phosibl fel y gellir cynghori cysylltiadau agos yn unol â'u hamgylchiadau. Bydd hyn yn cynnwys cynnig prawf PCR a bydd rhai yn cael eu cynghori i hunanynysu er mwyn lleihau'r risg y caiff yr haint ei ledaenu ymhellach. Mae camau'n parhau i gael eu cymryd yn lleol i annog y rhai nad oeddent yn awyddus i gael y brechlyn ar y cynnig cyntaf i wneud hynny. Ymgysylltu â chymunedau lleol i sicrhau y gall ymddygiadau da mewn lleoliadau risg uchel (ardaloedd nad ydynt wedi'u hawyru'n dda ac ardaloedd gorlawn) barhau a bod cymunedau'n barod i dderbyn hyn. Mae asiantaethau'n gwneud gwaith rhagweithiol ym mhob sector i sicrhau y gallant weithio mewn amgylchedd sy'n seiliedig ar risg. Cymryd camau ymatebol i orfodi busnesau i gydymffurfio.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y risg	Disgrifiad	Camau gweithredu
	<p>sy'n cael ei gyflwyno mewn lleoliadau caeedig neu ysgolion.</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid yw gwaith genomeg yn darparu unrhyw wybodaeth i ddangos bod amrywiolyn o ddiddordeb neu bryder wedi'i nodi. 	
Cymedrol	<ul style="list-style-type: none"> Mae mwy nag 85% o grwpiau blaenoriaeth 1-9 wedi cael dau ddos o frechlyn COVID-19 ac nid oes tystiolaeth bod imiwnedd yn gwanhau. Mae nifer yr achosion o'r haint dros gyfnod treigl o 7 diwrnod yn parhau i gynyddu. Ymatebir i bob achos newydd o'r haint ac mae tystiolaeth gan Profi, Orlhain, Diogelu yn dangos er bod mwyafrif yr achosion yn dal i fod ymhlith y boblogaeth iau symudol, fod nifer yr achosion o'r haint ymhlith y rhai 60 oed a hŷn wedi dechrau cynyddu. Mae derbyniadau i ysbytai yn cynyddu o 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd unigolion symptomatig yn parhau i hunanynysu a chael prawf, gan ymateb yn briodol i'r canlyniad. Caiff profion asymptomatig eu cynnal ymhlith carfannau amrywiol yn unol â'r canllawiau. Yn ogystal ag ymateb i bob achos newydd o'r haint, mae gwaith olrhain tuag yn ôl yn parhau a gall hyd yn oed ddarparu tystiolaeth bod y cadwyni trosglwyddo o risgiau hysbys yn plannu'r haint yn y gymuned ehangach. Ar y cam hwn, caiff risgiau hysbys (e.e. tafarndai/clybiau gwlyb) mewn perthynas â dal yr haint eu hystyried, a bydd hyn yn dylanwadu ar benderfyniadau i gyflwyno mwy o gamau ac adnoddau cyfathrebu lleol. Mae pwerau gorfodi awdurdodau lleol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau cyfyngu ac mewn ymateb i glystyrau o achosion. Cymryd camau rhagweithiol i ymgysylltu'n lleol â sectorau busnes penodol lle mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg o risg barhaus. Gall tystiolaeth gan Profi, Orlhain, Diogelu awgrymu nad oes un sector penodol yn gyfrifol am drosglwyddo'r haint, ond bod diffyg dealltwriaeth o'r ymddygiadau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y risg	Disgrifiad	Camau gweithredu
	<p>sylfaen isel ond mae canran yr achosion yn y gymuned lle mae angen derbyn cleifion i'r ysbyty yn isel o hyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae nifer y marwolaethau yn isel o hyd. • Mae achosion o'r haint yn ymddangos yn gynyddol mewn cartrefi gofal (yn aml aelod unigol o staff) ac ysgolion sy'n awgrymu bod trosglwyddiad sylweddol yn y gymuned. • Mae camau gorfodi gan awdurdodau lleol yn cynyddu. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg o achosion o ddiffyg cydymffurfio gan fusnesau sy'n gysylltiedig â chlystyrau o achosion o'r haint. • Nid yw gwaith genomeg yn darparu unrhyw wybodaeth i ddangos bod amrywiolyn o ddiddordeb neu bryder wedi'i nodi. 	<p>personol a all leihau'r risg o ddal yr haint a'r risg bosibl i eraill. Bydd y Tîm Rheoli Achosion Lluosog yn ystyried y ffordd orau o ymgysylltu ag aelodau'r gymuned a'u helpu i ddeall eu risg bersonol a'r risg i'r boblogaeth ehangach.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae camau'n dal i gael eu cymryd yn lleol i annog y rhai nad oeddent yn awyddus i gael y brechlyn ar y cynnig cyntaf i wneud hynny.
Uchel	<ul style="list-style-type: none"> • Mae mwy nag 85% o grwpiau blaenoriaeth 1-9 wedi cael dau 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd unigolion symptomatig yn parhau i hunanynysu a chael prawf, gan ymateb yn briodol i'r canlyniad. Caiff profion

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y risg	Disgrifiad	Camau gweithredu
	<p>ddos o frechlyn COVID-19. Mae nifer yr achosion o'r haint ymhlith y boblogaeth sydd wedi'i brechu yn cynyddu a gall hyn awgrymu bod imiwnedd yn gwanhau.</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid yw pob achos newydd o'r haint yn cael ei ymchwilio. Caiff adnoddau eu targedu at glystyrau o achosion ac achosion lluosog mewn lleoliadau risg uchel (e.e. cartrefi gofal). Mae'r haint yn cael ei drosglwyddo'n eang yn y gymuned fel y dangosir gan nifer o glystyrau bach mewn aelwydydd a chlystyrau cymdeithasol mewn gweithleoedd agored a chaeedig. Mae cyfradd yr achosion ymhlith pobl dros 60 oed yn cynyddu ac mae canran yr achosion yn y gymuned lle mae angen derbyn cleifion i'r ysbyty wedi cynyddu. Mae nifer y 	<p>asymptomatig eu cynnal ymhlith carfannau amrywiol yn unol â'r canllawiau.</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn gynyddol, mae camau gweithredu'n canolbwyntio ar leihau'r risg i gymunedau sy'n agored i niwed a thargedu clystyrau mwy o faint er mwyn lleihau niwed. Mae dibyniaeth gynyddol ar gydgyrth er mwyn hyrwyddo'r neges hunanynysu a nodi cysylltiadau, o leiaf. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caiff gwaith olrhain tuag yn ôl ei wneud. Mae strategaeth brofi ehangach wedi cael ei rhoi ar waith yn lleol er mwyn ei gwneud yn haws i bobl gael profion a nodi achosion o'r haint ymhlith unigolion symptomatig a'r rhai asymptomatig. Cynhelir adolygiad epidemiolegol manwl ynghyd ag asesiad o'r angen i ailgyflwyno ymyriadau anfferyllol yn ychwanegol at y rhai sy'n wirfoddol (cadw pellter cymdeithasol, gwisgo masg mewn sefyllfaoedd risg uchel, golchi dwylo'n aml, cwrdd yn yr awyr agored lle y bo hynny'n bosibl, ac ati). Pe na bai ymateb gwirfoddol y gymuned fel y'i diffinnir yn ddigon i fynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer yr achosion o'r haint, dylid gwneud cais i Lywodraeth Cymru am ragor o bwerau lleol. Wrth gefnogi'r bobl hynny sy'n agored i niwed, bydd y Tîm Rheoli Achosion Lluosog yn gweithio gyda lleoliadau caeedig i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r polisi profi y cytunwyd arno er mwyn lleihau'r gyfradd heintio i'r eithaf. Bydd y Tîm Rheoli Achosion Lluosog yn ystyried ac yn cefnogi'r gwaith o brofi staff gwasanaethau rheng flaen yn ddyddiol er

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y risg	Disgrifiad	Camau gweithredu
	<p>marwolaethau yn cynyddu.</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae nifer y staff sy'n hunanynysu yn cael effaith sylweddol ar wasanaethau rheng flaen.• Mae nifer y cleifion a dderbynnir i'r ysbyty yn cynyddu ac mae'r effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol i'w gweld yn nifer y cartrefi gofal yn y categori 'coch', sy'n golygu na ellir rhyddhau pobl oedrannus, sydd yn ei dro yn arwain at dagfeydd yn y GIG.• Mae nifer y staff sy'n hunanynysu yn cael effaith sylweddol ar wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a goleuadau glas rheng flaen.• Mae tystiolaeth gynyddol bod achosion o ddiffyg cydymffurfio gan fusnesau yn gysylltiedig â chlystyrau o achosion o'r haint.• Nid yw gwaith genomeg yn darparu unrhyw wybodaeth i	<p>mwyn eu galluogi i ddychwelyd i'r gwaith a chynnal gwasanaethau allweddol.</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae swyddogion gorfodi yn gweld yn gyson mai sectorau lle mae diffyg cydymffurfiaeth yn gyffredin yw'r fectorau ar gyfer lledaenu'r haint. Caiff ymyriadau eu targedu at y sectorau hyn.• Mae camau'n dal i gael eu cymryd yn lleol i annog y rhai nad oeddent yn awyddus i gael y brechlyn ar y cynnig cyntaf i wneud hynny.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y risg	Disgrifiad	Camau gweithredu
Uchel iawn	<p>ddangos bod amrywiolyn newydd o ddiddordeb neu o bryder yn ysgogi'r cynnydd yn nifer yr achosion o'r haint.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd unigolion symptomatig yn parhau i hunanynysu a chael prawf, gan ymateb yn briodol i'r canlyniad. Caiff profion asymptomatig eu cynnal ymhlith carfannau amrywiol yn unol â'r canllawiau. • Mae'r Tîm Rheoli Achosion Lluosog yn deall bod yr haint yn cael ei drosglwyddo mor gyflym yn y gymuned fel mai dim ond mesurau a fydd yn lleihau cyswllt rhwng pobl yn sylweddol a fydd yn torri'r cadwyni trosglwyddo. • Mae trefniadau cyfathrebu, profi a brechu ehangach ar waith, gan gynnwys trefniadau profi i gynnal gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a goleuadau glas rheng flaen. • Mae adolygiad o ymyriadau a chamau gweithredu anfferyllol hyd yma yn awgrymu na ellir gwneud mwy gyda phwerau lleol i leihau'r gyfradd drosglwyddo o berson i berson. • Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg gan Dimau Rheoli Achosion Lluosog bod gofynion y Rheoliadau Cyfyngu yn annigonol. • Gall y Tîm Rheoli Achosion Lluosog wneud cais am i ymyriadau penodol gael eu cyflwyno i gefnogi'r gofyniad i gyfyngu ar gyswllt rhwng pobl. • Caiff sylwadau eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn argymhell y dylid cymryd camau lliniaru pellach. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a yw camau lliniaru yn briodol ar

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Lefel y risg	Disgrifiad	Camau gweithredu
	<p>yn lledaenu ar hap drwy'r ardal gyfan ac nad oes dealltwriaeth gynhwysfawr o'r hyn sy'n ei ysgogi na thystiolaeth i ddangos nad yw'r ymyriadau cenedlaethol a lleol yn effeithiol mwyach.</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae'r Timau Gorfodi ar y Cyd wedi eu gorlethu.• Mae nifer y marwolaethau yn parhau i gynyddu.• Mae nifer y staff sy'n hunanynysu yn cael effaith sylweddol ar wasanaethau rheng flaen.• Mae achosion a chlystyrau o achosion yn cael effaith ddifrifol ar addysg.• Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol dan bwysau.• Nid yw gwaith genomeg yn darparu unrhyw wybodaeth i ddangos bod amrywiolyn newydd o ddiddordeb neu o bryder yn ysgogi'r cynnydd yn nifer yr achosion o'r haint.	<p>gyfer yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd. Wrth ystyried y cais, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth, gan gynnwys cyffredinrwydd yr haint ledled Cymru, yr effaith y mae COVID-19 yn ei chael ar y system iechyd a gofal cymdeithasol, a'r cyfraniad y mae brechlynnau yn ei wneud o ran gwanhau'r cysylltiad rhwng yr haint a marwolaethau a morbidrwydd, er mwyn penderfynu ai dull gweithredu lleol, rhanbarthol neu genedlaethol sy'n briodol.</p>

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ar lefel leol, mae systemau sefydledig ar waith i gasglu a chyflwyno gwybodaeth i Llywodraeth Cymru o adroddiadau gweithredu sy'n seiliedig ar sefyllfa, a thrwy ddulliau eraill fel POD, lechyd Cyhoeddus Cymru ac awdurdodau lleol yn gweithio ar y cyd gydag ysgolion. Mae trefniadau ar gyfer Timau Rheoli Achosion Lluosog hefyd ar waith i reoli clystyrau/brigiadau o achosion. Bydd yn bwysig i Gyfarwyddwyr Addysg ac unigolyn a enwebir gan yr awdurdod lleol barhau i fod yn rhan o'u Timau Rheoli Achosion Lluosog, er mwyn rhannu gwybodaeth ac ymateb i achosion lluosog lle y bo angen.

Mae'r pwyntiau bwled canlynol yn egluro y llif gwybodaeth a'r ffordd y mae hyn yn dylanwadu ar benderfyniadau a wneir am ymyriadau lleol. Dylid ei ystyried yn llif cylchol o wybodaeth yn hytrach na dechrau a diwedd proses.

- Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar lefel y risg genedlaethol, ar sail gwybodaeth leol a chenedlaethol
- Llywodraeth Cymru yn hysbysu Timau Rheoli Achosion Lluosog/arweinwyr POD am lefel y risg genedlaethol
- Timau Rheoli Achosion Lluosog/arweinwyr POD yn hysbysu awdurdodau lleol ac ysgolion am lefel y risg genedlaethol ac yn nodi unrhyw ysgolion neu leoliadau, ardaloedd neu ranbarthau lle y gallai fod risgiau gwahanol
- ysgolion yn rhoi'r mesurau amrywiol priodol ar waith ar gyfer lefel y risg honno neu'n nodi pa fesurau amrywiol y gallai fod angen eu cyflwyno os yw'r risg yn wahanol i lefel y risg genedlaethol
- Timau Rheoli Achosion Lluosog/arweinwyr POD yn trafod unrhyw bwyntiau allweddol â'r ysgol
- Timau Rheoli Achosion Lluosog/arweinwyr POD yn rhannu gwybodaeth â Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi ei phenderfyniadau ar lefel y risg genedlaethol

Fodd bynnag, mae'n rhaid nodi:

- os bydd lefel rhybudd o dan Reoliadau Diogelu lechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 yn cynnwys gofyniad llymach na'r hyn a nodir yn y fframwaith hwn, yna rhaid i'r gofyniad llymach hwnnw gael ei fodloni
- lle nad oes unrhyw ofyniad yn berthnasol, neu pan fydd gofyniad llai caeth yn berthnasol fel rhan o lefel rhybudd o dan y Rheoliadau, yna dylid dilyn y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

dull a nodir o dan y lefel risg berthnasol yn y fframwaith - o dan yr amgylchiadau hyn dylid hefyd rhoi ar waith unrhyw fesurau rhesymol ychwanegol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â coronafeirws neu ei ledaenu sydd wedi eu hadnabod fel rhan o asesiad risg yr ysgol

Ymyriadau craidd i'w rhoi ar waith

Dylai'r mesurau craidd canlynol fod ar waith o hyd, ni waeth beth fo lefel y risg:

- Dylid atgoffa pob aelod o staff a dysgwr i ddilyn [canllawiau Llywodraeth Cymru ar hunanynysu](#).
- Ni ddylai staff na dysgwyr fynd i'r ysgol os bydd ganddynt unrhyw symptomau COVID-19. Os bydd aelod o staff neu ddysgwr yn datblygu symptomau, dylai gael prawf cyn gynted â phosibl a hunanynysu tan iddo gael canlyniad y prawf. Os bydd y prawf yn negatiff, gall roi'r gorau i hunanynysu. Mae rhagor o ganllawiau ar gael [yma](#).
- Mae golchi dwylo'n rheolaidd ac arferion anadlol (Ei Ddal. Ei Daflu. Ei Ddifa) yn ymyriadau allweddol i atal yr haint rhag lledaenu a rheoli achosion, achosion lluosog a brigiadau o achosion.
- Mae trefniadau awyru digonol, drwy agor ffenestri neu addasu systemau awyru, yn bwysig hefyd. Mae rhagor o ganllawiau ar gael [yma](#).
- Dylid cynnal lefelau glanhau priodol yn unol â chlefydau trosglwyddadwy eraill. Fodd bynnag, ni fydd angen i ysgolion neilltuo diwrnodau penodol ar gyfer glanhau dwys mwyach. Ond, os caiff clwstwr o achosion ei gadarnhau sy'n gysylltiedig ag un dosbarth yn yr ysgol, bydd gwaith glanhau dwys yn yr ardal dan sylw yn ddefnyddiol o hyd i leihau'r gyfradd drosglwyddo.

Ymyriadau wedi'u teilwra i'w rhoi ar waith ar sail risg leol

Mae Atodiad A yn rhoi manylion yr hierarchaeth mesurau rheoli. Mae'r hierarchaeth yn ffordd o flaenoriaethu mesurau rheoli risg ar sail pa mor effeithiol yw mesurau rheoli gwahanol i leihau risgiau, a bydd yn adnodd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://lyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

defnyddiol i awdurdodau lleol ac ysgolion wrth iddynt ystyried ymyriadau wedi'u teilwra.

Os asesir, ar sail gwybodaeth leol, fod lefel y risg – ar gyfer rhanbarth, ardal neu ysgol unigol – yn wahanol i lefel y risg genedlaethol, er enghraifft o ganlyniad i achos neu glwstwr posibl o achosion, caiff ysgolion eu cefnogi i adolygu eu hasesiad risg a rhoi ymyriadau cymesur ac ychwanegol wedi'u teilwra ar waith, gan ddefnyddio'r tabl isod. Ceir rhagor o fanylion yn adrannau 7 ac 8.

Tabl 2: fframwaith ymyriadau ysgolion

	Isel	Cymedrol	Uchel	Uchel iawn
Lleihau rhyngweithiadau agos	Rhoi trefniadau ar waith i geisio lleihau rhyngweithiadau agos rhwng staff a dysgwyr lle y bo hynny'n bosibl.	Rhoi trefniadau ar waith i geisio lleihau rhyngweithiadau agos rhwng staff a dysgwyr. Gall hyn gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • osgoi cynnal digwyddiadau ar gyfer grwpiau mawr, fel gwasanaethau ysgol • defnyddio systemau unffordd • cynlluniau eistedd cyson (gan gydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl i ddysgwyr iau) • defnyddio manau awyr 	Rhoi trefniadau ar waith i geisio lleihau rhyngweithiadau agos rhwng staff a dysgwyr. Gall hyn gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • osgoi cynnal digwyddiadau ar gyfer grwpiau mawr, fel gwasanaethau ysgol • defnyddio systemau unffordd • cynlluniau eistedd cyson (gan gydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl i ddysgwyr iau) • defnyddio manau awyr 	Lleihau rhyngweithiadau agos rhwng dysgwyr i'r lefel ymarferol isaf. Gall hyn gynnwys y mesurau a nodir ar gyfer y lefel Uchel yn ogystal â chyflwyno grwpiau cyswllt ac, o bosibl, rhoi'r gorau i glybiau brecwast/ar ôl ysgol neu chwaraeon tîm am y tro, lle y bo angen.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

	IseI	Cymedrol	Uchel	Uchel iawn
		agored lle y bo hynny'n bosibl	agored lle y bo hynny'n bosibl • arwyddion ar y llawr	
Cadw pellter corfforol	Annog mesurau cadw pellter corfforol mewn ardaloedd dan do cyffredinol y tu allan i'r ystafell ddosbarth, fel coridorau, gan gydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl gyda phlant iau na dysgwyr y mae angen cymorth un i un arnynt.	Rhoi mesurau cadw pellter corfforol mewn ystafelloedd dosbarth yn dibynnu ar faint yr ystafell ac asesiad risg, gan gydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl gyda phlant iau na dysgwyr y mae angen cymorth un i un arnynt.	Rhoi mesurau cadw pellter corfforol a chynlluniau eistedd ar waith mewn ystafelloedd dosbarth. Gall hyn gynnwys desgiau sy'n wynebu'r blaen yn dibynnu ar faint yr ystafell ac asesiad risg, gan gydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl gyda phlant iau na dysgwyr y mae angen cymorth un i un arnynt.	Rhoi mesurau cadw pellter corfforol a chynlluniau eistedd ar waith mewn ystafelloedd dosbarth. Gall hyn gynnwys desgiau sy'n wynebu'r blaen yn dibynnu ar faint yr ystafell ac asesiad risg, gan gydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl gyda phlant iau na dysgwyr y mae angen cymorth un i un arnynt.
Profion llif unffordd ar gyfer staff a dysgwyr oed uwchradd	Ychydig o brofion llif unffordd rheolaidd, os o gwbl. Cynnig profion i gysylltiadau achosion positif a gadarnhawyd.	Cynnal profion wedi'u targedu/ penodol lle y caiff risgiau lleol eu nodi gan y Tîm Rheoli Achosion Lluosog. Cynnig profion i gysylltiadau	Cynnig profion llif unffordd ddwywaith yr wythnos i staff a dysgwyr uwchradd er mwyn helpu i nodi ac ynysu achosion asymptomatig cyn	Cynnig profion llif unffordd ddwywaith yr wythnos ac annog staff a dysgwyr uwchradd yn gryf i fanteisio arnynt er mwyn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

	Isef	Cymedrol	Uchel	Uchel iawn
		achosion positif a gadarnhawyd.	gynted â phosibl.	helpu i nodi ac ynysu achosion asymptomatig cyn gynted â phosibl.
Gorchuddion wyneb i ddysgwyr oed uwchradd	Ni chaiff gorchuddion wyneb eu hargymell fel mater o drefn, ond gall dysgwyr oed uwchradd eu gwisgo unrhyw le ar safle'r ysgol os byddant yn dymuno gwneud hynny Argymhellir y dylid parhau i wisgo gorchuddion wyneb ar gludiant i'r ysgol.	Ni chaiff gorchuddion wyneb eu hargymell fel mater o drefn, ond gall dysgwyr oed uwchradd eu gwisgo unrhyw le ar safle'r ysgol ac yn enwedig wrth symud o amgylch ardaloedd cymunedol dan do y tu allan i'r ystafell ddosbarth, fel coridorau. Argymhellir y dylid parhau i wisgo gorchuddion wyneb ar gludiant i'r ysgol.	Dylai dysgwyr oed uwchradd wisgo gorchuddion wyneb wrth symud o amgylch ardaloedd cymunedol dan do y tu allan i'r ystafell ddosbarth, fel coridorau, lle nad oes modd cadw pellter corfforol. Argymhellir y dylid parhau i wisgo gorchuddion wyneb ar gludiant i'r ysgol.	Dylai dysgwyr oed uwchradd wisgo gorchuddion wyneb ym mhob ardal dan do, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, lle nad oes modd cadw pellter corfforol. Argymhellir y dylid parhau i wisgo gorchuddion wyneb ar gludiant i'r ysgol.
Use of face coverings by staff and visitors	Ni chaiff gorchuddion wyneb eu hargymell fel mater o drefn, ond gall staff ac ymwelwyr eu gwisgo unrhyw le ar safle'r	Gall staff ac ymwelwyr wisgo gorchuddion wyneb wrth symud o amgylch ardaloedd cymunedol y tu allan i'r ystafell ddosbarth, fel	Dylai staff ac ymwelwyr wisgo gorchuddion wyneb wrth symud o amgylch ardaloedd cymunedol dan do y tu allan i'r ystafell ddosbarth,	Dylai staff ac ymwelwyr wisgo gorchuddion wyneb ym mhob ysgol ac ym mhob ardal dan do, gan gynnwys ystafelloedd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-llleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

IseI	Cymedrol	Uchel	Uchel iawn
ysgol neu'r lleoliad os byddant yn dymuno gwneud hynny.	coridorau.	fel coridorau, lle nad oes modd cadw pellter corfforol.	dosbarth, lle nad oes modd cadw pellter corfforol.

Efallai y bydd ysgolion hefyd yn adnabod y gallai fod angen rhoi ymyriadau ychwanegol ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd ar gyfer rhai dysgwyr. Cefnogir ysgolion i ystyried sut i deilwra ymyriadau yn unol â hynny.

Byddai unrhyw benderfyniad i argymell y dylid ailgyflwyno ymyriadau wedi'u teilwra am gyfnod o amser, megis gorchuddion wyneb neu grwpiau cyswllt, yn cael ei wneud yn lleol gyda'r ysgol mewn trafodaeth â swyddogion iechyd y cyhoedd, POD a'r awdurdod lleol.

Beth fydd yn digwydd os bydd achos o COVID-19 yn eich ysgol?

Os caiff achos positif ei nodi mewn ysgol, bydd POD yn arwain y gwaith o nodi cysylltiadau agos aelodau o staff a dysgwyr sydd wedi cael prawf positif, wedi'i gefnogi gan drafodaethau ag ysgolion.

Bydd y timau POD yn gyfrifol am gysylltu â phob achos positif a chasglu gwybodaeth am ei gysylltiadau agos yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Yn achos dysgwyr a staff, bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar gysylltiadau cymunedol, grwpiau ffrindiau agos a rhyngweithiadau agos. Rôl POD yw nodi'r unigolion sy'n bodloni'r diffiniad o gysylltiad agos a'r rhai, os o gwbl, y bydd yn rhaid iddynt hunanynysu.

Gall POD gysylltu ag ysgolion i gefnogi'r broses olrhain cysylltiadau drwy ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael iddynt eisoes, gan gynnwys cofnodion presenoldeb, manylion cyswllt a gwybodaeth am grwpiau ffrindiau dysgwyr.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae'n annhebygol y caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr yn y dosbarth/grŵp blwyddyn eu nodi'n gysylltiadau agos. Fodd bynnag, efallai y caiff yr ysgol ei chynghori i fabwysiadu dull rhybuddio a hysbysu er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni/gofalwyr a staff am y sefyllfa a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud, ar sail cyngor gan POD. Mae templed o lythyr rhybuddio a hysbysu ar gael. Bydd y tîm POD yn gweithio gyda'r ysgol i gytuno ar ddeunydd cyfathrebu.

Bydd y drefn rhybuddio a hysbysu hon yn atgyfnerthu negeseuon allweddol am risg COVID-19 i eraill a'r hyn y gellir ei wneud i leihau'r risg i'r eithaf, er enghraifft cadw llygad am symptomau newydd, mynd am brawf hyd yn oed os mai dim ond symptomau ysgafn sydd gennych, ac osgoi dod i gysylltiad â pherthnasau a ffrindiau sy'n agored i niwed yn y byrdymor (er enghraifft perthnasau hŷn neu'r rhai nad ydynt wedi cael eu brechu neu sy'n wynebu mwy o risg o haint COVID-19 difrifol). Byddant hefyd yn cynghori'n gryf na ddylid ymweld ag unrhyw ysbytai na chartrefi gofal am 10 diwrnod.

Caiff profion PCR eu cynnig i unrhyw un a gaiff ei nodi'n gysylltiad agos, ond nid yw'r rhain yn orfodol. Os na fydd gan blentyn symptomau ac os na fydd POD wedi ei gynghori i aros gartref/hunanyngysu, yna gall fynd i'r ysgol neu'r lleoliad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am ddarparu canllawiau i gefnogi'r timau POD ac ysgolion os bydd angen adolygu mesurau rheoli er mwyn rheoli achosion lluosog. Caiff hyn ei gydlynw drwy drefniadau'r Timau Rheoli Achosion Lluosog a ddisgrifir isod.

Mae cyfrifoldeb ar bawb i hunanyngysu os byddant yn datblygu unrhyw un o symptomau COVID-19. Dylai unrhyw un â symptomau gael prawf. Os na allant gael prawf neu os byddant yn cael prawf positif, bydd angen i unigolion symptomatig hunanyngysu am o leiaf 10 diwrnod o ddechrau'r symptomau.

Beth fydd yn digwydd os bydd brigiad posibl o achosion?

Gan adeiladu ar y Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Trosglwyddadwy yng Nghymru (2020), mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi rhoi **cyngor penodol ar ymchwilio i glystyrau o achosion ac achosion lluosog o COVID-19**. Ceir manylion llawn yn y ddogfen honno.

Os bydd mwy nag un achos positif o COVID-19 yn gysylltiedig ag ysgol, bydd y gwasanaeth POD yn ystyried a yw'n ymddangos bod cysylltiad rhwng yr achosion hyn.

Os bydd achosion lluosog o COVID-19 mewn ysgol sy'n ymddangos fel pe baent yn gysylltiedig, gall hyn arwain at sefydlu Tîm Rheoli Achosion Lluosog i ddarparu cefnogaeth i'r ysgol. Bydd y Tîm yn gweithio gyda'r ysgol i atal yr haint rhag cael ei drosglwyddo ymhellach. Bydd y Tîm Rheoli Achosion Lluosog yn dewis arweinydd i ymchwilio i glwstwr o achosion, a bydd yn gweithio gyda phennaeth/dirprwy enwebedig yr ysgol. Caiff cyngor ar sail asesiad o bob sefyllfa unigol ei roi er mwyn helpu'r ysgol i atal yr haint rhag cael ei ledaenu ymhellach drwy ddefnyddio ymyriadau ychwanegol wedi'u teilwra a nodir yn Nhabl 2, os oes angen.

Bydd timau POD neu'r Tîm Rheoli Achosion Lluosog sefydledig, yn achos clwstwr o achosion, yn parhau i fod yn gyfrifol am gysylltu â phob achos positif a chasglu gwybodaeth am ei gysylltiadau agos yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Os bydd dysgwr yn mynychu mwy nag un lleoliad yn rhan amser fel mater o drefn, er enghraifft am ei fod wedi'i gofrestru mewn ysgol brif ffrwd ac mewn uned cyfeirio disgyblion, lleoliad addysg heblaw yn yr ysgol neu ysgol arbennig, dylai'r lleoliadau weithio drwy'r system o fesurau rheoli ar y cyd, gan eu galluogi i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau a nodir.

Olrhain cysylltiadau mewn grwpiau oedran gwahanol

Bydd POD yn cyfweld â dysgwyr, sydd o dan 16 oed, gyda rhiant neu warcheidwad cyfreithiol. Bydd yn haws cynnal asesiad unigol o bob cysylltiad gyda dysgwyr hŷn, gan eu bod yn debygol o allu rhoi cyfrif mwy dibynadwy o'r bobl y maent wedi dod i gysylltiad â nhw.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Yn achos plant mewn ysgolion cynradd, lleoliadau blynyddoedd cynnar a dysgwyr ag ADY, bydd y trefniadau olrhain cysylltiadau yn canolbwyntio ar weithio gyda rhieni/gofalwyr i nodi grwpiau ffrindiau agos a chysylltiadau cymunedol y gallant fod yn ymwybodol ohonynt ac, mewn rhai amgylchiadau, bydd hyn yn cynnwys trafodaeth â'r ysgol.

Canllawiau pellach

Staff a dysgwyr sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol

- Dylai staff y nodir eu bod yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol ddilyn y **canllawiau** a gyhoeddwyd. Dylai'r aelodau hyn o staff barhau i drafod sut y cânt eu cefnogi gyda'u hysgolion.
- Gall unrhyw un sy'n byw gyda rhywun sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol barhau i fynd i'r gwaith os nad yw'n bosibl iddo weithio gartref. Mae canllawiau **canllawiau ar gael** i oedolion sy'n eithriadol o agored yn glinigol i ddatblygu salwch difrifol os byddant yn dod i gysylltiad â COVID-19 am fod ganddynt gyflwr iechyd difrifol penodol yn barod. Nid yw plant a phobl ifanc bellach yn cael eu hystyried yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol mewn perthynas â Covid-19. Efallai y bydd nifer fach yn y grŵp hwn a allai fod wedi cael cyngor gan eu harbenigwyr eu hunain i ynysu neu leihau eu cyswllt cymdeithasol oherwydd eu cyflwr meddygol neu driniaeth. Lle mae hyn yn wir, cynghorir plant a phobl ifanc i barhau i ddilyn cyngor eu clinigwr eu hunain.

Staff sy'n wynebu mwy o risg

- Gall staff sy'n wynebu **mwy o risg** barhau i fynd i'r ysgol. Yn yr ysgol, dylent ddilyn yr ymyriadau i leihau'r risg y caiff yr haint ei drosglwyddo – gan gynnwys gwneud yn siŵr eu bod yn cynnal hylendid dwylo ac anadlol da, lleihau unrhyw gyswllt i'r eithaf a chadw pellter corfforol – a dylent gael asesiad gweithle unigol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Gall pobl sy'n byw gyda'r rhai sy'n wynebu mwy o risg fynd i'r gweithle, ond dylent ddilyn arferion atal da yn y gweithle ac yn y cartref.

Staff sy'n feichiog

- Caiff staff sy'n feichiog eu hannog i gael eu brechu a chael asesiad risg yn y gweithle. Os nad yw'n bosibl iddynt weithio gartref, dylai staff beichiog a'u cyflogwyr ddilyn y cyngor yn [COVID-19: advice for pregnant employees \(Saesneg yn unig\)](#).

Mynychu mwy nag un lleoliad

- Os bydd unigolion yn mynychu mwy nag un lleoliad, bydd angen partneriaeth waith agos rhwng ysgolion, lleoliadau gofal plant a rhieni. Os bydd achos positif o COVID-19, bydd POD yn arwain y gwaith o nodi cysylltiadau agos aelodau o staff a dysgwyr sydd wedi cael prawf positif, wedi'i gefnogi gan drafodaethau ag ysgolion.
- Os bydd plentyn yn cael addysg a gofal plant, a hynny mewn dau leoliad neu ar ddau safle, bydd yn bwysig sicrhau bod yr ysgolion a'r lleoliadau gofal plant i gyd yn deall y trefniadau pontio a'u bod yn gwybod yn union pryd bydd y plentyn ym mhob lleoliad a pha drefniadau casglu a chludo sydd ar waith.

Ymwelwyr

- Dylai ysgolion ystyried sut i reoli ymwelwyr â'r safle, megis contractwyr, a sicrhau bod y canllawiau ar gadw pellter corfforol a hylendid yn cael eu hegluro iddynt pan fyddant yn cyrraedd, neu cyn hynny.
- Anogir arwyddion i ddangos y mesurau lliniaru sydd ar waith, a dylai'r rhain gael eu harddangos mewn mannau amlwg ar y safle.
- Dylid cadw cofnod o bob ymwelydd oherwydd mae'n bosibl y bydd angen y cofnod hwn yn y dyfodol i gefnogi prosesau olrhain cysylltiadau.
- Dylai ysgolion gymryd camau i annog rhieni/gofalwyr i beidio ag aros ar y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

safle/wrth y giatiau am fwy o amser nag sydd ei angen, yn enwedig wrth ollwng/casglu plant.

Darpariaeth arlwyo a phrydau ysgol am ddim

- Dylid cynnal clybiau brechwast yn ôl yr arfer. Caiff ysgolion sydd wedi penderfynu peidio â chynnal clybiau brechwast am ddim mewn ysgolion cynradd eu hatgoffa bod y ddyletswydd gyfreithiol i wneud hynny yn gymwys o hyd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

Cludiant i'r ysgol

- Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i weithio gyda gweithredwyr y mae ganddynt gontractau â nhw i sicrhau y caiff y mesurau angenrheidiol eu rhoi ar waith yn unol ag asesiadau risg (a ddylai gynnwys ymgynghori'n briodol ag undebau llafur a staff).
- Dylai disgyblion ym mlynnyddoedd 7 ac uwch wisgo gorchuddion wyneb wrth deithio ar gerbydau penodedig sy'n darparu cludiant i ysgolion uwchradd. Mae hyn yn gyson â chyngor Llywodraeth Cymru ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus.
- Mae rhagor o [ganllawiau](#) ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat ar gael yma.
- Dylid annog y defnydd o lwybrau [teithio llesol](#).

Ymweliadau addysgol

- Dylai ysgolion sydd am gynnal unrhyw fath o ymweliad addysgol barhau i ddilyn y broses asesu risg arferol. Dylai'r asesiad risg hwn gynnwys y camau i'w cymryd os bydd aelod o'r grŵp (dysgwyr neu aelod o staff) yn datblygu symptomau COVID-19 yn ystod yr ymweliad.
- Mae Cymdeithas Yswirwyr Prydain wedi paratoi [gwybodaeth am y goblygiadau o ran yswiriant teithio yn dilyn y brigiad o achosion o COVID-19](#). Os bydd gan ysgolion unrhyw gwestiynau pellach am eu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

hyswiriant neu os hoffent gael mwy o sicrwydd, dylent gysylltu â'u darparwr yswiriant teithio.

- Mae rhagor o ganllawiau ynghylch ymweliadau addysgol ar gael gan Gynghorwyr Ymweliadau Addysgol awdurdodau lleol, yn ogystal â'r Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored, sydd wedi datblygu **canllawiau** a all fod yn ddefnyddiol i ysgolion sy'n ystyried cynnal ymweliadau.

Atodiad A

Hierarchaeth mesurau rheoli


- Mae'r hierarchaeth mesurau rheoli yn ffordd o flaenoriaethu mesurau rheoli risg ar sail pa mor effeithiol yw mathau gwahanol o fesurau rheoli i leihau risgiau. Dylai mesurau lleihau risg gael eu hasesu yn nhrefn y flaenoriaeth a roddir iddynt yn yr hierarchaeth. Mae'r mathau o fesurau rheoli sy'n uwch yn yr hierarchaeth, e.e. dileu/cyfyngu yn fwy effeithiol o ran lleihau risgiau na'r rhai sy'n is yn yr hierarchaeth, e.e. cyfarpar diogelu personol.
- Dylai mesurau rheoli fod yn ymarferol i'w rhoi ar waith ac, yn ddelfrydol, dylent fod yn hawdd eu cynnal dros amser.
- Mae'n hollbwysig cofio mai anaml iawn y bydd modd dileu'r risg yn llwyr. Dylai'r cyfuniad o fesurau rheoli a gyflwynir geisio lleihau'r risg i'r lefel isaf ymarferol a dylid rhoi blaenoriaeth i ymyriadau strwythurol ac amgylcheddol yn hytrach na mesurau ar lefel unigol.
- Wrth gwrs, mae hyn yn golygu ystyried mwy na risgiau trosglwyddo yn unig; mae angen cydbwysu'r rhain yn erbyn risgiau i iechyd ehangach a lles a dysgu. Yn y pen draw, mae angen hyblygrwydd ar ysgolion i ymateb i'r risgiau hyn fel y gallant a chyn gynted â phosibl.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Hierarchiaeth mesurau rheoli



Gall defnyddio nifer o wahanol fesurau rheoli annibynnol ddiogelu pobl yn well drwy gynnig sawl haen o amddiffyniad

Dileu/cyfyngu – ceisio dileu'r perygl yn ffisegol neu gyfyngu arno. Yn cynnwys: cadw at y broses POD, peidio â mynd i'r ysgol os oes gennych symptomau COVID-19, profi.

Cyfnwid – ceisio cyflwyno gweithgaredd llai peryglus yn lle gweithgaredd peryglus. Yn cynnwys: rheoli cysylltiadau, defnyddio manau awyr agored.

Mesurau rheoli peirianyddol – ceisio ynysu pobl rhag y perygl. Yn cynnwys: mwy o awyru, cyflwyno systemau unffordd, cyfathrebu effeithiol, annog pobl i gael eu brechu.

Mesurau rheoli gweinyddol – ceisio newid y ffordd y mae pobl yn gweithio. Yn cynnwys: hylendid dwylo, glanhau.

Cyfarpar diogelu personol – ceisio diogelu'r gweithiwr rhag dod i gysylltiad ag unrhyw beryglon sy'n weddill drwy ddefnyddio mesurau cyfarpar diogelu personol. Yn cynnwys: gorchuddion wyneb, cyfarpar diogelu personol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-ileol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Fframwaith penderfyniadau rheoli heintiau COVID-19 lleol ar gyfer ysgolion o hydref 2021](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/fframwaith-penderfyniadau-rheoli-heintiau-covid-19-lleol-ar-gyfer-ysgolion-o-hydref-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).